



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cwm Taf Morgannwg Community Homecare**

**Cwm Taf Morgannwg Homecare  
Tŷ Heulog  
Heol y Bont-faen  
Pont-y-clun  
CF72 8FH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

**23 Mehefin 2022**

30/6/2022

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

*Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cwm Taf Morgannwg Community Homecare

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cymorth cartref
Darparwr cofrestredig	Hafod Housing Association Ltd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

## Crynodeb

Gwasanaeth cymorth cartref sy'n darparu gofal a chymorth personol i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn ardal ranbarthol Cwm Taf yw Cwm Taf Morgannwg Community Homecare. Mae dau gynllun ExtraCare yn y gwasanaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr ac y mae gwasanaethau Community Homecare hefyd yn gweithredu o'r safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r swyddfa gofrestredig yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod gan y bobl sy'n cael cymorth gynlluniau personol sy'n manylu ar eu hanghenion gofal, ond mae angen adolygu'r rhain yn rheolaidd ar gyfer pawb ar draws y gwahanol gynlluniau yn y gwasanaeth. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn canmol y berthynas gadarnhaol sydd ganddynt â'r staff gofal a'r staff swyddfa. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, ac y maent yn hyderus ac yn hapus yn eu rolau. Fodd bynnag, mae angen darparu goruchwyliaeth un-i-un reolaidd a hyfforddiant cyfredol i'r holl staff yn gyson ar draws cynlluniau'r gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni eu rolau'n ddiogel ac yn effeithiol a'u bod yn cael y cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Mae cais ar gyfer unigolyn cyfrifol newydd yn cael ei brosesu, ond mae'r unigolyn cyfrifol dros dro yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cyflawni ei dyletswyddau rheoleiddio. Gan mai gwasanaeth cymorth cartref yw hwn, nid ydym yn ystyried thema'r amgylchedd, ond roedd yn ymddangos bod y swyddfa gofrestredig a safleoedd eraill yn ddiogel ac yn 'addas i'r diben' yn ystod ein hymweliadau safle.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gwneud dewisiadau am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r staff yn datblygu cynlluniau gyda'r unigolyn a'i gynrychiolydd, gan ddefnyddio offer asesu da. Mae'r bobl yn rhoi adborth wyneb yn wyneb, drwy fonitro dros y ffôn, neu drwy arolygon boddhad gwasanaeth blynyddol, sy'n cyfrannu at sicrhau ansawdd y gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth dîm archwilio mewnol, ac mae'r rheolwr yn goruchwyllo archwiliadau a gynhelir gan arweinwyr tîm mewn cynlluniau unigol, i sicrhau bod y bobl yn derbyn gwasanaeth cyson o ansawdd da. Mae anghenion iaith a chyfathrebu'r bobl yn cael eu hystyried. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y cynnig Cymraeg, a dywedir wrthym fod gwybodaeth fel y datganiad o ddiben a'r canllaw ysgrifenedig ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r staff yn cofnodi anghenion pobl a'r risgiau i'w diogelwch a'u lles mewn asesiadau risg personol. Mae'r gwasanaeth yn ymatebol i newidiadau mewn anghenion gofal, ond mae angen adolygiadau mwy rheolaidd o gynlluniau personol y bobl yn gyson ar draws holl gynlluniau'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio system monitro gofal electronig, sy'n galluogi'r staff gofal i gyfleu unrhyw ymholiadau neu faterion i staff y swyddfa a'r tîm rheoli. Mae'r system hefyd yn galluogi'r staff swyddfa i gyfathrebu yn brydlon â'r gweithwyr gofal am unrhyw newidiadau i rotâu neu dasgau gofal.

Mae'r staff yn helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth bosibl. Maent yn cael hyfforddiant diogelu ac mae ganddynt wybodaeth am y weithdrefn i adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae polisïau ar waith yn y gwasanaeth, megis diogelu a chwythu'r chwiban, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r bobl yn gallu cael cymorth gyda'u meddyginiaeth os oes angen. Mae polisïau a gweithdrefnau meddyginiaeth ar waith yn y gwasanaeth, ac mae'r staff yn cael eu hyfforddi a'u monitro i sicrhau y gallant gyflawni'r dasg hon yn ddiogel ac yn briodol. Fodd bynnag, mae angen goruchwyliaeth fwy rheolaidd a hyfforddiant cyfredol ar gyfer yr holl staff ar draws y cynlluniau yn y gwasanaeth, er mwyn lleihau problemau mewn meysydd fel cofnodi ar Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl a'u teuluoedd berthynas gadarnhaol â'r staff. Dywedodd y bobl wrthym fod y cyfathrebu'n dda ar y cyfan. Gwelsom ganllaw defnyddiwr gwasanaeth a roddir i'r bobl, yn ogystal â datganiad o ddiben, sy'n gyson â'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rheolwyr yn sicrhau eu bod yn hysbysu'r staff am bopeth y mae angen iddynt ei wybod i ddarparu gofal dyddiol da, a'u bod yn darparu sianeli i fwydo unrhyw bryderon neu ymholiadau yn ôl i'r swyddfa. Mae'r staff yn defnyddio rhaglen monitro gofal ar eu ffonau i gael mynediad at gynlluniau gofal, rotâu, a nodiadau dyddiol. Mae'r adborth gan y bobl a'u teuluoedd yn gadarnhaol. Dywedodd un unigolyn fod y staff *'yn wych ... yn dda iawn ... dim cwynion o gwbl ... pob un yn ffrind i mi ... hapus â phopeth'*. Dywedodd un berthynas wrthym hefyd fod y staff *'fel aelodau o'r teulu ... yn hollol wych ... parchus ... rhyfeddol ... hwyllog ... gofalgar iawn ... mae'r rheolwyr yn dewis y bobl iawn'*.

Mae'r cynlluniau gofal yn ystyried canlyniadau personol y bobl, yn ogystal â'r gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen. Gwelsom dystiolaeth fod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn rhai cynlluniau ar draws y gwasanaeth, a'u bod yn cynnwys y bobl, eu teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol eraill, megis gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol. Fodd bynnag, mae angen i hyn fod yn gyson i bawb ar draws holl gynlluniau'r gwasanaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae mesurau ar waith i helpu'r bobl gyda'u meddyginiaeth, os oes angen. Mae polisi a gweithdrefnau meddyginiaeth yn eu lle sy'n rhoi arweiniad clir i'r staff. Mae rhai staff yn cael hyfforddiant meddyginiaeth, ac mae goruchwylwyr yn gwirio cymhwysedd y gweithwyr gofal i gynorthwyo'r bobl gyda'u meddyginiaeth trwy hapwiriadau ac asesiadau cymhwysedd. Fodd bynnag, mae rhai siartiau yn y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn dangos bylchau anesboniadwy, meddyginiaeth/dyddiadau wedi'u hysgrifennu â llaw, pinnau ysgrifennu lliw yn cael eu defnyddio, a sgriblo allan. Amlygir y materion hyn mewn archwiliadau ac adroddiadau ansawdd gofal yr unigolyn cyfrifol, ond nid yw'n glir sut yr eir i'r afael â hyn gyda staff unigol oherwydd goruchwyliaeth a hyfforddiant cyfyngedig rhai ohonynt.

Nod y gwasanaeth yw amddiffyn pobl rhag niwed a chamdriniaeth bosibl. Mae rhai staff yn cael hyfforddiant diogelu, ac mae polisiâu ar waith sy'n eu hysbysu sut i adrodd am gamdriniaeth. Dywedodd y staff wrthym y gallent fynd at y rheolwyr gyda'r materion hyn.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith. Mae rhai staff wedi cael hyfforddiant yn y maes hwn ac mae polisi a gweithdrefn glir yn eu lle. Yn ystod ein hymweliad swyddfa, gwelsom fod cyflenwadau da o gyfarpar diogelu personol megis masgiau, menig a hylif diheintio dwylo. Dywedodd y bobl sy'n cael gofal a chymorth fod y rhan fwyaf o'r staff yn dal i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn eu cartrefi.

## Yr Amgylchedd

Gan mai gwasanaeth cymorth cartref yw hwn, nid ydym yn ystyried thema'r amgylchedd, ond roedd yn ymddangos bod y swyddfa ac adeiladau eraill yn ddiogel ac yn 'addas i'r diben' yn ystod ein hymweliadau safle.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r staff yn wybodus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt amser i gael yr wybodaeth a'r profiad y mae arnynt eu hangen cyn ymweld â phobl ar eu pen eu hunain. Mae proses sefydlu yn ei lle, sy'n cynnwys hyfforddi a chysgodi staff eraill. Mae rhai staff yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd, sy'n cynnwys trafodaethau un-i-un gyda'u rheolwyr llinell ynghylch eu lles a'u datblygiad proffesiynol, 'gwiriadau ar hap', ac asesiadau cymhwysedd. Mae rhai staff yn cael hyfforddiant, sydd yn bennaf wedi bod ar ffurf e-ddysgu ar-lein yn ystod y pandemig, ond mae rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi dechrau eto. Fodd bynnag, mae cofnodion yn dangos nad yw goruchwyliaeth reolaidd a hyfforddiant cyfredol yn gyson ar gyfer pob aelod o staff ar draws yr holl gynlluniau o fewn y gwasanaeth. Nid yw hyn yn caniatáu mynd i'r afael â materion megis cofnodi siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a'u datrys gyda staff unigol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu rotâu mewn da bryd trwy'r rhaglen monitro gofal a bod y rheolwyr yn eu hysbysu o unrhyw newidiadau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hapus ac yn hyderus yn eu rolau. Dywedodd un aelod o staff, *'Hafod yw'r cwmni gorau i mi weithio iddo erioed ... rheolwr cefnogol iawn'*. Mae prosesau recriwtio a fetio ar waith ac maent yn gadarn. Mae gan yr holl staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae recriwtio yn parhau yn y gwasanaeth gan ddefnyddio platfformau ar-lein, mynychu ffeiriau swyddi, canolfannau gwaith, a chymhellion ar gyfer staff presennol a newydd fel y cynllun Medicash.

Mae prosesau monitro ac archwilio ar waith i gynnal ansawdd y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae ganddi oruchwyliaeth dda o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd ymhlith y staff a'r bobl sy'n cael gofal. Cwblheir adroddiadau ansawdd gofal ac adolygiadau sicrhau ansawdd. Cedwir cofnod o gwynion a digwyddiadau adroddadwy yn y gwasanaeth. Mae polisi cwynion hefyd yn ei le ac mae'n ymddangos ei fod yn cael ei ddilyn. Mae'r bobl sy'n cael cymorth yn rhoi adborth ar y gwasanaeth yn ystod ymweliadau, trwy alwadau monitro, ac mewn holiaduron arolwg boddhad. Dywedasant wrthym y gallant ffonio'r swyddfa gydag unrhyw faterion neu ymholiadau.

### Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.



## Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
36	Nid yw rhai aelodau o staff yn cael eu goruchwylio bob tri mis, nac yn cael arfarniadau blynyddol na hyfforddiant cyfredol. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl staff yn cael goruchwyliaeth, arfarniadau a hyfforddiant rheolaidd.	Newydd
16	Nid yw adolygiadau o gynlluniau personol y bobl yn cael eu cynnal o leiaf bob tri mis yn gyson ar draws y gwahanol gynlluniau yn y gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod cynlluniau pawb yn cael eu hadolygu o leiaf bob tri mis.	Newydd

**Dyddiad cyhoeddi 25/08/2022**